Hanes y Dyfodol

Dr Alexy Karenowska: Cymrawd Ymchwil, Adran Ffiseg a Choleg Magdalen, Prifysgol Rhydychen a Chyfarwyddwr Technoleg, Y Sefydliad Archaeoleg Ddigidol

Ni ellir gorbwysleisio dylanwad treftadaeth ddiwylliannol ar ddynoliaeth heddiw ac yn y dyfodol. Mae'r cysylltiadau rhwng pobl a'u hanes wrth wraidd cysyniadau mor sylfaenol â hunaniaeth, cymuned, a dinasyddiaeth. Ac mae arwyddocâd y cysylltiadau hyn yn amlwg nid yn unig yn effeithiau cadarnhaol lefelau uchel o ymwybyddiaeth ddiwylliannol, ond hefyd yn y modd y mae'r rheiny sy'n ceisio gosod eu byd-olwg hwy eu hunain drwy rym yn defnyddio sensora neu lurgunio diwylliannol.

Mae technoleg yn gweddnewid byd treftadaeth ddiwylliannol: mae'n mynd â'n gallu i weld yn ôl i'r gorffennol i uchelfannau newydd, mae'n chwyldroi ein gallu i ddiogelu treftadaeth gyffyrddadwy ac anghyffyrddadwy, ac mae'n ehangu y tu hwnt i bob adnabyddiaeth y ffyrdd y gall pobl ymgysylltu â'u hanes hwy eu hunain a hanes pobloedd eraill y byd. Yn y sgwrs hon, byddwn yn mesur a phwyso arwyddocâd y chwyldro technolegol hwn ac yn ystyried ei oblygiadau ar gyfer hanes y byd, heddiw ac yn y dyfodol.